The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

Canllaw Hygyrch i Gymryd Rhan yn y Broses

Mawrth 2019

Cynnwys

Cyflwyniad 2
Cefndir 3
Polisi cynllunio cenedlaethol a lleol 3
Pa geisiadau DAC sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd? 3
Camau prosiect DAC 4
Cam 1: Cyn hysbysu 5
Pryd byddaf yn clywed am brosiect DAC a all effeithio arnaf? 5
Sut gallaf gofrestru fy marn am brosiect DAC drafft? 5
Ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyflwyno cais 6
Pwy fydd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad – a sut? 6
Sut ddylwn i wneud sylwadau? 7
Cam 2: Cyflwyno cais 7
Ymgynghoriad statudol – cyflwyno 'sylwadau' 7
Sut i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig 7
Cyngor ar ysgrifennu sylwadau da 8
Beth i'w osgoi yn eich sylwadau 8
Beth os wyf wedi gwrthwynebu eisoes yn ystod yr ymgynghoriad cyn cyflwyno'r cais? 9
Deisebau ac ymatebion 'pro forma' 9
Cam 3: Archwiliad 9
Sut gallaf gadw golwg ar yr archwiliad? 10
Cam 4: Penderfyniad 10
Argymhelliad a phenderfyniad 10
Sut byddaf yn gwybod a yw'r cais wedi'i gymeradwyo? 10

Cyflwyniad

Mae penderfyniadau ar geisiadau cynllunio ar gyfer mathau penodol o seilwaith (a elwir yn Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, neu DACau) yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru (**'yr Arolygiaeth'**) sy'n ymdrin â cheisiadau ar gyfer DACau ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) yn fath o gais cynllunio ar gyfer prosiect seilwaith mawr o bwysigrwydd cenedlaethol – er enghraifft, fferm wynt, gorsaf drydan neu gronfa ddŵr.

Mae DAC yn wahanol i gais cynllunio arferol yn y ffordd y caiff ei benderfynu. Yn hytrach na'ch Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud y penderfyniad, bydd Arolygydd yn archwilio'r cais ac yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru yn seiliedig ar rinweddau cynllunio a blaenoriaethau cenedlaethol. Wedyn, bydd y Gweinidog yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd ai peidio.

Caiff rhestr lawn o DACau ei diffinio yn y Rheoliadau[1].

Mae sawl ffordd y gall cymunedau gymryd rhan yn y broses DAC. Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybod i chi:

- sut gall cymunedau ddisgwyl gael eu cynnwys mewn datblygu cynnig DAC
- y ffordd orau i leisio eich barn ar brosiect DAC
- sut i wneud 'sylwadau' da i'r Arolygydd Cynllunio
- beth yw diben 'archwiliad' DAC.

[1] Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd)

Cefndir

Polisi cynllunio cenedlaethol a lleol

Rhaid i benderfyniadau ar geisiadau DAC fod yn seiliedig ar y **Cynllun Datblygu Lleol** (CDLl) a **pholisi cynllunio Llywodraeth Cymru**.

- Mae **CDLlau** yn cael eu paratoi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol. Maent yn amlinellu lle y dylai datblygiad gael ei leoli, ac yn cynnwys polisïau y dylai ceisiadau DAC gydymffurfio â nhw.

- Mae **Polisi Cynllunio Cymru** a'r **Nodiadau Cyngor Technegol** cysylltiedig yn pennu ystod o bolisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae Nodyn Cyngor Technegol 8 yn nodi rhannau o Gymru lle gellir darparu ffermydd gwynt.

Pa geisiadau DAC sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd?

Mae gwefan yr Arolygiaeth yn cynnwys rhestr o'r holl brosiectau DAC ac ar ba gam yr ydynt.

DAC a mathau eraill o ganiatâd

Gall cais DAC gynnwys mathau penodol o **ganiatâd eilaidd**, ynghyd â'r cais cynllunio; er enghraifft, caniatâd i ddadgofrestru Tir Comin, dargyfeirio Hawl Tramwy Cyhoeddus neu addasu Adeilad Rhestredig.

Os bydd cais DAC yn cael ei gymeradwyo, mae'n bosibl y bydd angen **caniatâd cysylltiedig** cyn y gellir dechrau datblygu – er enghraifft Trwydded Amgylcheddol, caniatâd cynllunio cysylltiedig yn Lloegr, neu NSIP cysylltiedig (gweler isod). Rhaid i'r datblygwr wneud cais am y rhain ar wahân i'r cais DAC.

Mae prosiectau DAC yn debyg i **Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPau)**. Y prif wahaniaeth yw bod NSIPau yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth y DU, a bod prosiectau DAC yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn ymdrin â cheisiadau DAC a NSIP. Mae ceisiadau NSIP yn cael eu prosesu gan staff ac Arolygwyr sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfa ym Mryste. Mae ceisiadau DAC yn cael eu prosesu gan staff ac Arolygwyr sy'n rhan o dîm yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Camau prosiect DAC

Mae crynodeb o'r camau gwahanol ar gyfer prosiect DAC i'w weld isod. Mae Canllaw Gweithdrefol yr Arolygiaeth Gynllunio yng Nghymru yn rhoi mwy o fanylion am bob cam.

Ymgysylltu ac ymgynghori cyn cyflwyno cais

Cam 1: Cyn hysbysu

Bydd y datblygwr yn llunio syniadau ar gyfer y cynnig, yn cysylltu ag unigolion a grwpiau, yn trefnu digwyddiadau ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynigion drafft er mwyn nodi materion a chyfnewid barnau rhwng partïon â buddiant.

Mae'r cam hwn yn wirfoddol. Y datblygwr fydd yn penderfynu sut i ymgymryd â'r 'ymgysylltiad' cynnar hwn â chymunedau lleol.

Bydd y datblygwr yn rhoi gwybod i'r Arolygiaeth ei fod yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio.

Ar ôl hysbysu, **rhaid i'r datblygwr roi cyhoeddusrwydd i gynnig manwl y DAC**, ac ymgynghori â pherchenogion a phreswylwyr cyfagos, y Cyngor Cymuned a chyrff eraill, am gyfnod o **chwe wythnos**.

Rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol arddangos hysbysiadau ger y safle. Bydd y datblygwr yn paratoi Adroddiad Ymgynghori sy'n crynhoi sut yr ymgynghorodd â'r gymuned a sut mae'r ymatebion wedi dylanwadu ar y cais cynllunio.

Cyflwyno cais ac ymgynghori

Cam 2: Cyflwyno cais

- Bydd y datblygwr yn cyflwyno cais i'r Arolygiaeth ynghyd ag Adroddiad Ymgynghori
- Bydd yr Arolygiaeth yn dilysu'n cais ac yn enwebu swyddog achos
- Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn arddangos hysbysiadau safle
- Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn paratoi Datganiad o'r Effaith Leol

Os bydd yr holl ddogfennau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno, bydd yr Arolygiaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais ac yn ysgrifennu ar ymgyngoreion. Bydd gan bobl 5 wythnos i gyflwyno datganiadau neu wrthwynebiadau (a elwir yn 'sylwadau').

Archwiliad a phenderfyniad

Cam 3: Archwiliad

- Bydd yr Arolygiaeth yn penodi Arolygydd i 'archwilio'r' cais, gan gynnwys yr holl sylwadau.
- Bydd yr Arolygydd yn penderfynu a oes angen **gwrandawiad**, **ymchwiliad** neu **sylwadau ysgrifenedig** ychwanegol. Os felly, mae'n bosibl y bydd yr Arolygydd yn gwahodd partïon â buddiant i gymryd rhan.

Rhaid i'r Arolygydd a benodir ystyried yr holl sylwadau sy'n cael eu cyflwyno. Fodd bynnag, yr Arolygydd fydd yn penderfynu a ddylid cynnig gwrandawiad neu ymchwiliad.

Cam 4: Penderfyniad

Ar ddiwedd yr archwiliad, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu adroddiad i Weinidog Cymru yn argymell a ddylid rhoi caniatâd cynllunio neu ei wrthod. Yna, bydd gan y Gweinidog 12 wythnos i wneud y penderfyniad terfynol.

Cam 1: Cyn hysbysu

Mae Canllawiau Gweithdrefnol yr Arolygiaeth yn annog datblygwyr i gynnwys cymunedau ar gam cynharaf unrhyw brosiect DAC. Rydym yn gwneud hyn oherwydd:

- Mae cynnwys pobl sydd â gwybodaeth leol yn arwain at brosiectau o ansawdd gwell; a
- Chyfleoedd cyfyngedig yn unig sydd ar gael i newid datblygiad yn hwyrach yn y broses – felly dyma eich cyfle gorau i ddylanwadu ar y prosiect.

Y datblygwr fydd yn penderfynu sut i ymgysylltu â'r cyhoedd. Er na all yr Arolygiaeth ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgysylltu â chymunedau, byddwn yn annog hynny'n weithredol yn ystod ein trafodaethau cynnar â'r datblygwr. Fodd bynnag, yn yr un modd, rydym yn annog cymunedau lleol yn gryf i gymryd rhan yn gynnar mewn prosiectau DAC.

Daw'r cyfle gorau i ddylanwadu ar brosiect DAC yn ystod y camau cynnar o'i ddatblygu. Mae'n werth cymryd rhan yn gynnar yn y broses trwy fynychu digwyddiadau a chyfarfodydd, neu drwy siarad â'r datblygwr.

Pryd byddaf yn clywed am brosiect DAC a all effeithio arnaf?

Bydd datblygwyr yn rhoi cyhoeddusrwydd i'w prosiectau DAC mewn amryw ffyrdd. Efallai y byddwch yn cael gwybod am brosiect DAC trwy:

- Gael llythyr drwy'r drws
- Gweld pamffled neu boster mewn man cyhoeddus
- Gweld hysbyseb neu stori mewn papur newydd lleol neu ar wefan, neu
- Glywed amdano gan rywun yn eich ardal neu gan eich Cyngor Cymuned.

Sut gallaf gofrestru fy marn am brosiect DAC drafft?

Yn ystod camau cynnar prosiect DAC, y ffordd orau i fynegi eich barn yw:

- Trwy siarad â'r datblygwr mewn cyfarfodydd neu ddigwyddiadau, neu dros y ffôn, er mwyn cael mwy o wybodaeth am y prosiect, a
- Dilyn y drafodaeth hon â neges e-bost neu lythyr yn amlinellu'r ffyrdd rydych chi'n credu y gallai'r prosiect gael ei wella.

Byddwch yn cael cyfle i wneud sylwadau ffurfiol yn ystod y cam **'ymgynghoriad cyn cyflwyno cais'** (gweler isod).

Ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyflwyno cais

Rhaid i ddatblygwyr ymgynghori â chymunedau lleol am gyfnod o chwe wythnos, o leiaf, ar y prosiect DAC drafft cyn iddynt gyflwyno cais i'r Arolygiaeth.

Yr ymgynghoriad hwn yw'r cyfle 'ffurfiol' cyntaf i chi leisio eich barn. Caiff cymunedau lleol eu hannog i ddefnyddio'r broses ymgynghori hon i gyflwyno unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau.

Rôl Cynghorau Cymuned a Thref

Mae gan Gynghorau Cymuned rôl bwysig i'w chwarae o ran rhoi gwybod i ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio Lleol am faterion lleol. Mae'n bosibl y gall Cynghorau Cymuned helpu datblygwyr i drefnu digwyddiadau yn y gymuned leol. Hefyd, gallant gyflwyno sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais.

Fodd bynnag, p'un a oes gan ardal Gyngor Cymuned sefydledig ai peidio, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio bob amser yn disgwyl i'r datblygwr ymgysylltu'n uniongyrchol â phreswylwyr lleol.

Pwy fydd yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad – a sut?

Bydd y datblygwr yn cael ei annog i gysylltu â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol i weld â phwy y dylid ymgynghori. Fodd bynnag, y datblygwr sy'n gyfrifol am gynnal a threfnu'r ymgynghoriad, yn hytrach na'ch Awdurdod Cynllunio Lleol.

Bydd y datblygwr yn cysylltu â pherchenogion a phreswylwyr yn agos at y safle, y Cyngor Cymuned a chyrff eraill trwy'r e-bost neu lythyr. Bydd y datblygwr hefyd yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais DAC drafft trwy drefnu bod hysbysiadau safle yn cael eu harddangos a thrwy roi hysbyseb mewn papur newydd lleol. Bydd pobl yn cael gwybod ble y gallant weld copïau o'r cais DAC drafft, gan gynnwys yr holl ddogfennau ategol.

Argaeledd dogfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg

Bydd pob dogfen sy'n cael ei chyhoeddi gan yr Arolygiaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond mae'n bosibl y bydd dogfennau technegol sy'n cael eu llunio gan y datblygwr ar gael yn uniaith Saesneg.

Bydd yr Arolygiaeth yn annog datblygwyr i lunio unrhyw ddogfen 'sydd ar gael i'r cyhoedd' yn y ddwy iaith (e.e. Crynodebau Annhechnegol o Ddatganiadau Amgylcheddol), ond mater i'r datblygwr fydd hyn.

Sut ddylwn i wneud sylwadau?

Er mwyn i'ch sylwadau gael eu hystyried gan y datblygwr, rhaid i chi anfon sylw neu wrthwynebiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod ymgynghori.

Cyn i chi gyflwyno sylw/gwrthwynebiad, dylech edrych ar y dogfennau a ddarperir gan y datblygwr. Gallant ymddangos yn gymhleth, yn enwedig os nad ydych yn gyfarwydd â'r strwythur a'r iaith dechnegol y maent yn eu defnyddio. Os felly, cysylltwch â'r datblygwr, gan y gallai eich helpu i nodi pa ddogfennau y mae angen i chi edrych arnynt.

(Am gyngor ynghylch beth i'w roi yn eich sylw neu wrthwynebiad, gweler yr adran ganlynol ar ysgrifennu sylwadau.)

Cam 2: Cyflwyno cais

Ar ôl y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, bydd y datblygwr yn ystyried yr holl sylwadau a wnaed. Os yw'r datblygwr yn fodlon nad oes unrhyw fodd o wella ei brosiect, bydd yn ei gyflwyno i'r Arolygiaeth i'w archwilio. (Os yw o'r farn bod angen ail-feddwl, efallai y bydd yn dewis diwygio'r prosiect ac ail-ymgynghori â'r cyhoedd cyn cyflwyno'r cais.)

Yna, bydd y datblygwr yn paratoi Adroddiad Ymgynghori, yn amlinellu sut mae wedi ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned, a sut mae'r prosesau hynny wedi dylanwadu ar y cais cynllunio.

Pan fydd hyn wedi'i gwblhau, bydd y cais gorffenedig yn cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth. Os bydd yr holl ddogfennau gofynnol wedi'u cyflwyno, byddwn yn 'derbyn' y cais. Bydd Arolygydd Cynllunio yn cael ei benodi/phenodi, a bydd yr archwiliad yn dechrau.

Ymgynghoriad statudol – cyflwyno 'sylwadau'

Bydd yr Arolygiaeth yn trefnu i'r Awdurdod Cynllunio Lleol arddangos hysbysiad ar y safle. Bydd swyddog achos o'r Arolygiaeth yn anfon neges e-bost neu'n ysgrifennu at yr holl berchenogion a meddianwyr tir cyfagos, Cynghorau Cymuned a chyrff statudol eraill, yn eu gwahodd i gyflwyno 'sylwadau'.

Bydd gan gymunedau lleol 5 wythnos i gyflwyno datganiadau neu wrthwynebiadau (a elwir yn '**sylwadau**') at yr Arolygiaeth Gynllunio. Gofynnir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol anfon unrhyw sylwadau y mae'n eu derbyn ar yr Arolygiaeth. Bydd yr holl sylwadau ar gael i'w gweld ar wefan yr Arolygiaeth.

Sut i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig

Cyn i chi ysgrifennu sylwadau, dylech ddysgu cymaint ag y gallwch am y prosiect a meddwl yn ofalus am yr effaith y bydd yn ei chael. Efallai yr hoffech holi'r datblygwr neu swyddog achos yr Arolygiaeth i'ch helpu i ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig. Pan fyddwch yn barod, dylech gael ffurflen sylwadau gan yr Arolygiaeth a rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys:

- eich enw llawn, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn (neu enw a chyfeiriad eich asiant, os oes rhywun yn gweithredu ar eich rhan)
- p'un a yw eich sylwadau'n ymwneud â'r prosiect yn ei gyfanrwydd, neu 'ganiatâd eilaidd' cysylltiedig
- effeithiau cadarnhaol neu negyddol y prosiect DAC; ac
- a ydych yn cyflwyno achos ar y cyd â phobl eraill.

Cyngor ar ysgrifennu sylwadau da

Meddyliwch am yr hyn y mae angen ei gynnwys yn eich sylwadau, gan ei drefnu mewn ffordd resymegol a chadw at y ffeithiau. Mae sylwadau clir sydd wedi'u hysgrifennu'n dda yn fwy effeithiol na sylwadau distrwythur ac emosiynol. Bydd yr Arolygydd yn defnyddio ffeithiau wedi'u hategu gan dystiolaeth wrth wneud ei (h)argymhelliad.

Os cewch eich gwahodd i siarad mewn gwrandawiad neu ymchwiliad, byddwch ond yn gallu siarad am y materion a nodir gan yr Arolygydd. Felly, gwnewch yn siŵr fod eich sylwadau mor gynhwysfawr ag y bo modd.

Er mwyn ysgrifennu sylwadau clir ac effeithiol:

- cadwch at y ffeithiau
- canolbwyntiwch ar faterion sy'n cael eu codi gan y prosiect (e.e. effeithiau cadarnhaol neu negyddol)
- byddwch yn benodol a rhowch enghreifftiau
- rhowch wybod i'r Arolygydd am yr hyn rydych am iddo/iddi wybod amdano – peidiwch â gadael iddo/iddi ddyfalu
- ysgrifennu mewn iaith bob dydd clir a syml.

Beth i'w osgoi yn eich sylwadau

Yn ystod yr archwiliad, gall yr Arolygydd ystyried pethau sy'n berthnasol i gynllunio yn unig. Er enghraifft:

- Effaith y cynnig ar dirwedd, ffyrdd/traffig lleol, rhywogaeth a warchodir neu ansawdd aer
- Manteision economaidd y cynnig
- A yw'r cynnig yn gyson â'r Cynllun Datblygu Lleol.

Ni all yr Arolygydd ystyried pethau y mae'r Llysoedd eisoes wedi datgan nad ydynt er budd y cyhoedd (er enghraifft yr effaith ar ansawdd golygfa o adeilad preifat, neu golli gwerth ym mhris tŷ). Mae'n bwysig cofio hyn wrth ysgrifennu eich sylwadau. Felly, gwnewch yn siŵr fod eich sylwadau'n canolbwyntio ar faterion neu effeithiau sy'n ymwneud â budd y cyhoedd.

Beth os wyf wedi gwrthwynebu eisoes yn ystod yr ymgynghoriad cyn cyflwyno'r cais?

Efallai y byddwch wedi gwrthwynebu yn ystod yr ymgynghoriad cyn cyflwyno'r cais. Os nad yw'r mater rydych wedi'i wrthwynebu wedi'i ddatrys, dylech gyflwyno sylwadau newydd pan fydd yr Arolygiaeth yn eich gwahodd i wneud hynny. Bydd y datblygwr wedi paratoi Adroddiad Ymgynghori, sy'n amlinellu'r sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cyn cyflwyno'r cais. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi edrych ar yr adroddiad hwn i weld sut mae'r datblygwr wedi diwygio'r prosiect er mwyn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd.

Deisebau ac ymatebion 'pro forma'

Wrth wneud argymhelliad i'r Gweinidog, bydd yr Arolygydd yn cael ei (h)arwain gan y mathau o faterion sy'n cael eu codi mewn gwrthwynebiadau, yn hytrach na nifer y gwrthwynebiadau sy'n cael eu derbyn ynghylch mater penodol. Ni all Arolygydd roi mwy o bwys ar fater penodol dim ond oherwydd bod nifer fawr o bobl wedi gwrthwynebu. Felly, yw bydd eich cymuned am wrthwynebu cynnig, dylech wneud yn siŵr eich bod yn seilio eich gwrthwynebiad ar y rhesymau pam rydych o'r farn y mae prosiect yn annerbyniol o ran ei effeithiau/rhinweddau cynllunio.

Cam 3: Archwiliad

Ar ddiwedd y cyfnod o 5 wythnos ar gyfer derbyn sylwadau, bydd y datblygwr yn cael cyfle i wneud mân newidiadau i'r prosiect. Yr Arolygydd fydd yn penderfynu a ddylid derbyn unrhyw newidiadau arfaethedig ai peidio.

Bydd yr Arolygydd yn ystyried yr holl sylwadau a gyflwynwyd. Bydd yr Arolygydd hefyd yn darllen yr holl ddogfennau a gyflwynwyd gyda'r cais DAC, ac unrhyw Adroddiadau o'r Effaith Leol a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Cyngor Cymuned. Bydd yr Arolygydd yn ymweld â'r safle hefyd. Bydd ef neu hi'n defnyddio'r wybodaeth hon i amlygu'r 'prif faterion' sy'n cael eu codi gan y prosiect.

Yna, bydd yr Arolygydd yn penderfynu a oes angen cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad i archwilio unrhyw 'brif fater'. Os bydd yn penderfynu nad oes angen gwrandawiad neu ymchwiliad, bydd yr Arolygydd yn symud ymlaen ar sail sylwadau ysgrifenedig. Mae sylwadau ysgrifenedig yr un mor bwysig â thystiolaeth lafar.

Os ydych wedi cyflwyno sylwadau ar ganiatâd eilaidd (fel cynnig i ddadgofrestru Tir Comin), mae gennych hawl i gael eich clywed. Bydd yr Arolygydd yn ei gwneud yn glir pan fydd hyn yn berthnasol.

Gallai'r archwiliad gynnwys:

- Sylwadau ysgrifenedig
- Gwrandawiad
- Ymchwiliad
- ...neu bob un o'r uchod.

Mae **gwrandawiad** yn drafodaeth dan arweiniad yr Arolygydd. Mae **ymchwiliad** yn fwy ffurfiol; mae partïon yn debygol o fod â chynrychiolwyr cyfreithiol a gellir croesholi tystion.

Mae gwrandawiadau ac ymchwiliadau yn ddigwyddiadau cyhoeddus, ond dim ond y rhai sy'n cael eu gwahodd yn benodol gan yr Arolygydd sy'n gallu cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth; oni bai bod eich sylwadau'n ymwneud â chaniatâd eilaidd penodol, nid oes gennych unrhyw hawl i gael eich clywed. Bydd yr Arolygydd yn gwahodd pobl i roi tystiolaeth lafar neu gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ychwanegol, dim ond os yw o'r farn bod angen mwy o wybodaeth mewn perthynas â 'phrif fater'.

Sut gallaf gadw golwg ar yr archwiliad?

Bydd yr holl ddogfennau'r cais, Adroddiadau ar yr Effaith Leol, sylwadau ysgrifenedig ac unrhyw ddogfennau yn ymwneud â gwrandawiad neu ymchwiliad ar gael i'w gweld ar wefan yr Arolygiaeth:
https://dns.planninginspectorate.gov.uk/

Cam 4: Penderfyniad

Argymhelliad a phenderfyniad

Ar ddiwedd yr archwiliad, bydd yr Arolygydd yn llunio adroddiad i Weinidogion Cymru ei ystyried, sy'n cynnwys argymhelliad ynghylch p'un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio neu ei wrthod. Ni fydd yr adroddiad a'r argymhelliad ar gael i unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y broses DAC eu gweld tra maent yn cael eu hystyried gan Weinidogion Cymru.

Yna, bydd gan Weinidogion Cymru 12 wythnos i wneud penderfyniad a'i gyhoeddi. Yn ystod y cyfnod hwn, byddant yn ystyried adroddiad yr Arolygydd, yn adolygu argymhelliad yr Arolygydd ac yn gwirio'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cais.

Sut byddaf yn gwybod a yw'r cais wedi'i gymeradwyo?

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r penderfyniad ar wefan y DAC ac yn rhoi gwybod i'r holl bartïon â buddiant am y penderfyniad. Bydd y penderfyniad yn cynnwys copi o adroddiad yr Arolygydd.